

❖ YMSON JOSEFF

Neithiwr, a'r angylion yn nythu
 yn y llwydrew ar frigau'r olewydd
 gan daenu eu gwyn adenydd
 yn wawl hud dros Fethlehem,
 yr oedd y baban a aned
 i Fair ddiwair, fy nyweddi,
 yn fwndel o ddirgelwch.

Canys etifedd daear a nef oedd y mab yn y stabal,
 un a gyfunai eithafion byd yn ei berson bach.
 Wele'r Iesu yng ngwely'r asyn,
 ac ar ei wedd dangnefedd ei Dad
 a gwên fwyn egwan ei fam.

Pwy a wŷr rym y pwerau
 yn y bachgen anghenog, cyfoethog hwn,
 y cawr yn y preseb cerrig,
 y tywysog dan y to isel,
 y pendefig gwan a ergydia'r anwir
 â gwialen ei enau,
 yr un tirion y tawdd y bryniau
 ar arch ei wefusau Ef?

Hwn a aned i'r byd y Gwarddwr
 yn y dydd gwydn nad ydoedd gydnaws
 ag anian baban bach.

A heno mor anodd yw dirnad
 bwriadau yr Un a'i hanfonodd:
 i fyd a llofrudd ynddo yn disgwyl amdano y daeth.
 Mae holl allu'r tywyllwch
 yn udo eisoes am waed Iesu.

Y mae milwyr Rhufain ym Methlehem heno
 yn stryio drwy'r stryd,
 eryrod y Cesar yn erlid colomen y nef;
 y mae Rahel hefyd a'i mawr wylofain
 yn fraw yn yr awel,
 a Herod, y cadno, gan lid yn wallgo'n ei wâl.

A Cheidwad y byd yn ffoadur bach
 ar ei ffordd i'r Aifft.

O, ryfedd anrhydedd ac ymddiriedaeth
 a ddaeth i Mair ac i mi:
 cael meithrin ar ein gliniau y Gair,
 ei wyllo ar ein haelwyd,
 a chael lapio'n cariad daearol yn dynn amdano
 rhag ei niweidio gan neb.
 O, ddirfawr ryfeddod oedd ein penodi

i'r Un mawr yn rhieni maeth.

Ond wrth deithio heno ar ein siwrnai unig
ar hyd yr uchelder i'r Aifft,
yr ydym yn nerfus gynhyrfus i gyd
ac yn llawn o gynlluniau.
Y mae'r baban hwn i dyfu i fyny,
i fyw.

Ni lwydda yr un offeryn a lunier i'w erbyn ef.
Ni a ddodwn am esgyrn ei dduwdod
raen gofal rhieni,
a'i warchod rhag Herod a'i wŷr;
ni bydd gwewyr na gwae
a drecho Foses y preseb,
y Brenin a feithrinir
ar adain y nef a'n synnwyr cyffredin ni.

Gwynn ap Gwilym